Mr S Howells Cwbri

"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] GORPHENAF, 1890. [RHIF 31.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Uffern Sylweddol	145
Y Tangnefedd Dwyfol	147
Pa ddaioni all crefydd wneyd i ddyn	148
Cymmanfa Ganu Undodiaid Merthyr ac Aberdar	150
Duw yn Nghrist	152
Efengyl yr Iesu	153
Dammeg yr Ysguthan a'r Biogen	155
Addewid y Meddw	155
Addysg Grefyddol	156
Nodynau Gwasgarog	158
A ddylid rhoi iawn i Dafarnwyr	161
Balchder	162
Llettygarwch Siberaidd	163
Nodynau Enwadol am y Mis	164
Menywod	166
Manion a Hanesion	166
Marwgofion	167

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU:—E.T., Cwmbach; Mrs. H., Gilfachgoch; D.W,D., Gellionen; D.E., Aberdare; H.J., Glynneath; P.P., Blaentrafle; G.J.D., Lampeter.

☞ Anfoner pob gohebiaeth at y Golygydd,

J. HATHREN DAVIES,
CEFNCOED,
NR. MERTHYR TYDVIL.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Cefn* Post Office, ac yn enw J. H. Davies, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

TRYSORFA Y DYNION IEUAINC.

Mr. James Evans, Dowlais ... ... 3s.

R. C. JONES.

THE GRAMMAR SCHOOL, LLANYBYTHER.

HEAD MASTER:—REV. D. EVANS.

For further particulars, apply to Rev. D. Evans, Llanwnen, Llanybyther, R.S.O.

GWEITHIAU CHANNING.

GELLIR cael yr argraffiad rhad o'r uchod, yn rhad trwy y *post*, am 9c. yr un oddiwrth D. J. JONES,

MOUNT PLEASANT GARDEN, ABERDARE.

LLAWLYFR YR UNDODWR, PRIS 6CH.

Anfoner at D. Evans, Llanwnen, Llanybyther.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] GORPHENAF, 1890. [RHIF 31.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

UFFERN SYLWEDDOL.

Y MAE llawer iawn o son wedi bod ac yn bod am uffern, ei natur, a'i pharhad. Y syniad poblogaidd yw mai un faterol a llythyrenol ydyw, ac mai rhan pechaduriaid, ac yn neillduol hereticiaid, fydd y tân brwmstanaidd hyd yn oes oesoedd, ac mor ddiderfyn a thragwyddoldeb, ac nad oes un gobaith y bydd i'w thrigolion gael eu hadferyd oddiyno am byth, ond i ddyoddef yn ddiddiwedd y llosgfeydd tragwyddol a'r gospedigaeth lemaf a mwyaf annyoddefol, heb fod un amcan da mewn golwg yn y gweinyddiad o honi. Ond y mae yn dda genym feddwl nad yw y syniad isel a dychrynllyd hwn yn ffynu yn awr yn agos mor gyffredinol ag oedd yn y gorphenol pell, ac fod plant dynion—o leiaf y goreu a'r tyneraf eu calon o honynt—yn dal syniadau gwahanol a gwell. Ni ystyrir, ac ni edrychir gan lawer yn awr ar Dduw fel rhyw fwci ofnadwy ddychrynllyd, ymddialgar a llidus, ond yn hytrach fel ar ein Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd, a chredant mai yr amcan sydd ganddo Ef mewn golwg yn ei holl weinyddiadau a'i holl oruchwyliaethau tuag at ei blant yn y byd hwn, a phob byd arall, yw un anfeidrol dda a chariadlawn, ac mai yr amcan mawr a bendithiol sydd ganddo mewn golwg yn ei holl ffyrdd yw ein dedwyddwch pur trwy bob rhyw adfyd, poen, a chur.

Ond er hyny, na fydded i neb fod mor annoeth a meddwl nad oes un uffern sylweddol yn bod, ac nad ydyw dyn yn gyfrifol am yr oll y mae yn ei feddwl a'i gyflawnu, oblegyd y ffaith anwadadwy a syml yw fod pob peth dirgel yn cael, ac i gael, ei ddwyn i'r amlwg a chyfiawn farn Duw. Y mae yn bossibl i ddyn fod yn uffern yma, fel y mae miloedd lawer yn ddiamheuol, ac mor wir a hyny, y mae yn bos-

sibl iddo fod allan o honi, ac i fod yn breswyliwr teyrnas nefoedd yn y byd sydd yr awr hon, fel y *mae* pob dyn sydd yn caru Duw a dyn.

Yn awr, gan ein bod wedi darllen,* yn ddiweddar, sylwadau o eiddo y Parch. John Hunter, Glasgow, ar yr uffern ydym wedi cyfeirio ati, ac wedi cael cryn foddlonrwydd yn ei sylwadau, a chan feddwl y gallant fod yn dderbyniol, ac o les i rai o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD, wele hwynt at eich gwasanaeth, Mr. Gol.

Yn yr ail ran o'i bregeth oddiar y geiriau, "Canys beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fed efe," dywedodd Mr. Hunter :—

"1. Y mae yn sicr fod y gwahaniaeth rhwng yr iawn a'r cam yn dragwyddol.

"2. Y mae yn sicr y bydd i gyfreithiau tragwyddol Duw fyned rhag blaen i wobrwyo cyffelyb â chyffelyb yn y byd hwn, fel pob byd arall —'beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fed efe.' Y mae barn dragwyddol yn golygu ein bod bob amser dan gyfreithiau tragwyddol. Filoedd o flynyddoedd yn ol, canlynwyd pob pechod gan ei gospedigaeth naturiol. Yn yr ystyr syml ac anmhersonol hwn, o leiaf, yr oedd cospedigaeth yn dragwyddol—yr oedd yn gyfraith dragwyddol, neu sylweddoldeb o'r drefn foesol o'r greadigaeth ; rhywbeth oedd bob amser wedi ac yn canlyn pechod.

"3. Y mae yn sicr fod yn rhaid i bob dyn fod yn dragwyddol waeth am bob gweithred bechadurus y mae wedi bod yn euog o honi. Gall gael maddeuant, y mae yn wir, ond y mae yn rhaid iddo ef fod yn dlotach ac yn wanach am y drwg y mae wedi ei wneyd. Buasai yr uwchaf a'r goreu allesid ei gyrhaedd yma oni bai ei ddrygioni—ïe, i fod yn well ac uwch nag ydyw. Yn y *modd* hwn, y mae pob gweithred ddrwg o ganlyniad diderfyn. Dyma y gwirionedd oedd megys yn ategu yr haerdyb anghenfilaidd eglwysig o gospedigaeth dragwyddol. Nid yw yn un rhan o'r hyn sydd yn cael ei alw yn grefydd rydd i wneyd pechod yn llai dychrynllyd nag oedd mewn gwirionedd ; ni cheisia ddim ond gosod esponiad mwy gwir a rhesymol ar ffeithiau a chyfreithiau annghyfnewidiol. Ceisia buro yr hen syniad o ofn neu ddychryn, a chyfnewid ei amcan. Nis gall fod genym ry ychydig o ddychryn pruddglwyfus a hunanol yn unig ; o ofn pur a rhesymol o bechod, ac o'r canlyniadau y mae yn eu heffeithio trwy gyfreithiau cynhenid yn natur ac ymddygiad; nis gallwn gael gormod o hyn.

"4. Y mae yn sicr fod Duw yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd. Trwy yr oesau tragwyddol, Efe yw yr Holl-wir, yr Holl-dda, bob amser mewn ymrafael gyda drwg ; bob amser yn ceisio daioni a bendigedigrwydd ei blant ; bob amser y Tad, yr Iachawdwr, a Chynnorthwywr ei holl greaduriaid, a phob enaid. Ni fydd Efe yn llai cyfiawn a thrugarog, yn llai ffyddlon i'w Dadoliaeth yn y byd i ddod, nag yw yn y byd sydd yr awr hon. Nid oes angen i ni gael ein hamddiffyn a'n cadw rhagddo Ef. Y mae Iesu Grist yn ddatguddiad o'r hyn yw

* Gwelaf, mewn rhifyn diweddar o'r YMOFYNYDD, fod un arall wedi eu darllen hefyd, ac yn herwydd hyny, ni osodaf i fewn yma ond yn unig yr hyn nad yw wedi ymddangos.

Duw yn dragwyddol. Nid ydym i ofni Duw, ond i ofni ein hunain. Amheu Duw ydyw yr annghrediniaeth fawr. Daioni Anfeidrol yw Duw, ac y mae ei drugaredd yn parhau yn dragywydd. Nid yw Efe yn darfod a bod yn Dad ac yn Iachawdwr yn marwolaeth. Y mae gan y Creawdwr yn gystal a'r creadur, y Tad yn gystal a'r plentyn, gyfrifoldeb. Oddiwrth Dduw nis gall dim ond da ddyfod." Am hyny, ymddiriedwn ynddo ag ymddiried cyfan a pherffaith, dan y grediniaeth ddiysgog y gwna Efe â ni, ac i ni, yr hyn sydd oreu yn awr ac am byth. Gochelwn uffern, ac awn i'r nefoedd.

"Nid yw," meddai Cudworth, "uffern ond cronell pechod a daioni, hannergrwn o dywyllwch yn yr hwn y mae pob drwg yn symmud; a nefoedd yw yr hannergrwn gwrthwynebol o oleuni, y gronell ddysglaer o wirionedd, sancteiddrwydd, a daioni, ac yr ydym ni, mewn gwirionedd, yn gosod ein hunain yn y meddiant o'r naill neu y llall o honynt yn y byd hwn. Cymmerir pechod ac anufudd-dod allan o uffern, ac yna, bydd i glirio yn fuan i fyny i oleuni a thawelwch, ac i ddysgleirio allan i nefoedd Y mae pob gwir sant yn cario ei nefoedd o'i amgylch yn ei galon ei hun, ac ni all fod gan yr uffern oddiallan iddo un dylanwad arno na throsto." L.

Y TANGNEFEDD DWYFOL.

A fyn gofalon y byd a'i helbulon
  Lethu dy fywyd i'r ddaear yn lân?
Onid oes cymhorth yn swynol gyfrinion
  Gwyddor ac awen, athroniaeth a chân?
    Na, er mor fawr eu gwerth,
    Ni feddant hwy y nerth
  I roddi imi'r oruchafiaeth hon;
    Nis gallant, er mor dda,
    Ond prin liniaru'r pla
  Sy'n boen dirdynol beunydd dan fy mron.

Cyfod d'olygon, O f'enaid, i'r nefoedd,
  Gwel yn diflanu helyntion y byd;
Fel tonau'n ymgladdu yn nyfnder y moroedd,
  Yn Nuw a'i dangnefedd fe'i collir i gyd.
    Nid yw dyoddef blin
    Ond modd i ddangos rhin
  Y grasol ddoniau ddeuant oddifry;
    Dy demtasiynau llym
    Fynegant beth yw grym
  Y nerthoedd Dwyfol sy'n dy gynnal di.

D. R.

PA DDAIONI ALL CREFYDD WNEYD I DDYN.—I.

Y MAE yn anhawdd cael gafael mewn pwnc mwy pwysig na'r pwnc hwn, gan nad beth am ei ddyddordeb ; o herwydd os nad yw crefydd yn esgor ar un daioni i ddynolryw, nid yw ein ffydd ond ofer. Yn y llythyr hwn, gwnaf ychydig sylwadau yn gyffredinol ar grefydd, ac mewn erthyglau dyfodol, caf nodi allan, yn gyntaf, yr hyn y mae crefydd wedi ei wneyd hyd yn hyn, ac yna, yr hyn all crefydd wneyd etto.

Wrth edrych ar wahanol grefyddau y byd, cawn fod rhyw dri o bethau i'w cael yn mhob un o honynt, o'r iselaf i'r uchelaf, sef y rhan feddyliol, y rhan deimladol, a'r rhan ymarferol, neu ynte y syniadau, y teimlad, a'r gweithredoedd. Y mae'r pethau hyn i'w cael yn mhob crefydd. Ond nis gallwn lai na sylwi ar y gwahaniaeth mawr sydd rhwng y cyfryw bethau mewn gwahanol grefyddau, ac hyd y nod mewn cyssylltiad á'r un crefyddau, a hyny o herwydd y gwahaniaeth sydd yn nadblygiad gwahanol ddosparthiadau o'r hil ddynol.

Gall y syniad, er enghraifft, fod yn isel ; y syniad am ddyn, nad yw ond creadur gwael, hollol lygredig, annghymhwys i un daioni ; y syniad am Dduw, nad yw ond bôd creulawn, un sydd wedi creu y byd yn unig er ei ogoniant ei hun, ac un sydd yn bwriadu cospi y rhan fwyaf o'i blant am bob tragwyddoldeb, a hyny am ryw bechodau nas gallent hwy eu cadw ymaith, er boddloni ei fympwy a'i bleser ei hun ; y syniad am y berthynas rhwng Duw a dyn—digofaint anfeidrol ar un llaw, ofn ac arswyd ar y llaw arall. Gall y teimlad fod yr hyn sydd yn naturiol yn deilliaw oddiwrth y syniadau hyn—yn isel. Y mae yn wir fod y teimlad crefyddol yn fynych yn well na'r syniadau ; ond y maent hefyd yn llawn mor fynych yr un fath. Gall y gweithredoedd fod yn rhai ydynt yn deilliaw yn naturiol oddiwrth y syniadau a'r teimladau, megys gosod unig fab i farwolaeth er mwyn boddloni Duw digllawn ; gosod Iesu Grist i farwolaeth gan yr Iuddewon, neu y Cristionogion yn erlid yr Iuddewon, fel yn y blynyddau diweddaf ; gwaith yr Eglwys Rufeinig yn erlid y Protestaniaid, a John Calfin yn llosgi Servetus—yr oedd yr holl bethau hyn yn cael eu gwneyd yn enw crefydd, ac yr oeddynt, fel rheol, yn tarddu yn naturiol oddiar y syniadau a goleddid gan yr erlidwyr. Mae hyn oll wedi ffynu yn enw crefydd, ac yn ffynu heddyw mewn rhyw agwedd neu gilydd.

Ond ar y tu arall, fe all y pethau hyn fod yn hollol wahanol. Gall y syniad fod yn uwch—y syniad am ddyn, mai efe yw penaf waith y greadigaeth, ac nad oes terfyn braidd ar ei allu i ddadblygu ; am Dduw, ei fod yn anfeidrol berffaith, doeth, a da ; am y berthynas anfeidrol rhwng y ddau, fod Duw yn cyflawnu'r cyfan oddiar gariad, er daioni uchelaf ei holl blant, a'i fod yn rhoddi pob moddion angenrheidiol ar ddyn er ei gynnorthwyo i gyrhaedd amcan ei fywyd o fewn ei afael. Gall y teimlad etto fod yr hyn sydd yn tarddu yn naturiol oddiar y syniadau hyn, sef teimlad o barch, o gariad sydd yn taflu ymaith bob ofn, ac o ymddiriedaeth yn Nuw. Gall y gweithredoedd

hefyd fod yn cydfyned â'r syniadau ac â'r teimladau, sef gweithredoedd o gariad, o gyfiawnder, ac o dosturi, ufudd-dod i ddeddfau Duw, o ffyddlondeb yn y cylch y mae Duw yn troi ynddo. Yr wyf yn dweyd y *gallant*, o herwydd fe allant hefyd fod yn hollol i'r gwrthwyneb, ac fod yr ymddygiad a'r teimlad yn hollol annghysson a chroes i'r syniadau a goleddir genym. Ond yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, y mae y gweithredoedd a'r teimladau yn cyfateb yn lled agos i'r syniadau.

Y mae'r pethau hyn (hollol wahanol i'w gilydd) wedi ffynu yn enw crefydd, ac nis gellir llai na sylwi ar y gwahaniaeth mawr sydd rhyngddynt. Y mae pob ffurf o grefydd yn cael ei hystyried yn bwysig gan ei deiliaid. Y wraig Hindwaidd yn taflu ei phlentyn i afon y Ganges er mwyn boddloni ei duwiau, Calfin yn gosod Servetus yn aberth i'r fflamiau, y Pabyddion a'r Protestaniaid yn erlid ac yn llosgi eu gilydd —y maent oll, neu y rhan fwyaf o honynt, yn ffyddlon i'r goleuni sydd ganddynt, ac yn ystyried fod yr hyn a wnaent yn wasanaeth i Dduw.

Y mae graddau yn nadblygiad y natur grefyddol, fel yn nadblygiad pob peth arall, fel y mae pob un yn gwybod ag sydd yn gwybod rhywfaint o hanes y byd crefyddol; ac wrth reswm, nis gellir dysgwyl cymmaint o ddaioni oddiwrth grefydd pan mewn cyflwr isel o ddadblygiad ag a ellir ddysgwyl oddiwrthi pan yn ei ffurf uchelaf. Y mae gwir grefydd yr un peth yn wastad dan bob amgylchiad; ond gan nad yw dynion ond anmherffaith ar y goreu, y mae'r arddangosiadau o grefydd yn amrywio. Pan yn ceisio cael allan pa ddaioni mae crefydd wedi ei wneyd, y mae yn naturiol ein bod yn cymmeryd crefydd yn y ffurf uchelaf o honi, a'r ffurf uchelaf o grefydd a wyddom ni am dani yw Cristionogaeth. Er hyny, nid oes un grefydd nad yw wedi bod yn achos i ryw ddaioni, er gwaethaf eu bod o bossibl wedi bod yn achos o lawer iawn o ddrwg. A gellir dweyd yr un peth am Gristionogaeth. Y mae llawer ffurf o Gristionogaeth. Er enghraifft, y mae gwahaniaeth mawr rhwng Cristionogaeth y canoloesau a Christionogaeth yr oes bresenol. Mewn llawer o amgylchiadau, y mae llawn cymmaint o wahaniaeth rhwng Cristionogaeth yr oes bresenol a Christionogaeth Iesu Grist; cymmaint o wahaniaeth yn fynych, fel nas gellir dweyd braidd fod un berthynas rhyngddynt. Ac wrth ystyried pa ddaioni y mae y grefydd hon wedi ei wneyd hyd yn hyn, byddwn yn naturiol yn ei chymmeryd yn ei ffurf uchelaf, lle y mae wedi dangos ei hun mewn bywydau tebyg i fywyd Iesu Grist. Hyn a gaf wneyd yn y nesaf. A. B.

Mae Ned* y Bardd yn eithaf dyn
I weled synwyr yn ei waith ei hun;
Ni wiw mo'i alw yn brydydd cibddall,
Mae yn gweled mwy nag un dyn arall.—*Glan Gors.*

*Pwy oedd y Ned hwn?

CYMMANFA GANU UNDODIAID MERTHYR AC ABERDAR.

Dydd a hir gofir ar Goedycymmer oedd y Llun, yr 2il o Fehefin—dydd cynnaliad y drydedd gylchwyl gerddorol gan Undodiaid y rhanbarth hwn o'r wlad. Yr ydym yn sicr nad oes neb o'r sawl ydynt yn fyw yn awr a eill gofio y fath gydgyfarfyddiad o Undodiaid erioed o'r blaen yn ein pentref prydferth ag a welwyd yma ddydd y gymmanfa. Dywed hanes am y bobl yn yr amser gynt yn ymdyru i fyny i Jerusalem ar adeg yr uchelwyliau; yno yr ymgyrchent o bob cwr er cadw yn fyw yr addoliad oedd wedi ymdemlu yn eu heneidiau, ac er cadw yn gryno y rhwymyn brawdol oedd yn eu gwneyd yn un bobl briodol i'r Duw Byw. Cynnelid uchelwyl yr Undodiaid ddydd Llun, ac yn blygeiniol iawn canfyddid pobl y Cefn yn brysur gyda'r parotoadau er derbyn y llwythau a fyddent yn ymdywallt yma o holl gyrau'r wlad yn ystod y dydd, a theg yw dweyd i'r ddeadell fechan yn yr Hen-Dy-Cwrdd dderbyn y cydymdeimlad llwyraf oddiwrth yr enwadau ereill yn y lle. Darfu i'r Annybynwyr, gyda'r parodrwydd mwyaf, roddi at ein gwasanaeth eu capel eang, a'r Bedyddwyr, hwythau, a ohiriasant am bythefnos eu gwyl de, yr hon, ar y cyntaf, a bennodwyd ar ddydd ein cymmanfa. Am unwaith, yr oedd y brodyr yn "gytun, heb neb yn tynu'n groes." Anhawdd yw prisio yn ddigonol yr help a dderbyniasom gan gyfeillion o bell ac agos, ac anhawdd hefyd yw ymattal rhag eu henwi, ond gorfodir ni gan ein gofod i wneyd hyny gydag un eithriad, a'r eithriad hwnw yw y boneddwr rhwyddgalon, Mr. C. Evans, Penrheolgerryg. Fel y dywedwyd yn y gymmanfa, mae Mr. Evans yn barod i estyn llaw o gymhorth yn mhob cyfwng, ac ar yr adeg hon dygodd y pen trymaf i'r baich o borthi nifer mawr a ddaethai o bell, megys o Gwm Tawe a manau ereill. Ac nid yn unig hyn, ond bu Mr. Evans yn y Drill Hall drwy'r dydd, yn gweithio â'i holl egni er gwneyd ereill yn gysurus. Dyfal ddysgwyliem drwy'r boreu am ddyfodiad gwyr Gellionen, ac fel yr heneiddiai'r dydd, bron cyn y dysgwyliad, gwelem rai o'r fintai, fel yspïwyr neu (rhag y tramgwyddoch) fel rhagredegwyr, yn dweyd fod y gweddill o'r fyddin, megys het John Gilpin gynt, ar y ffordd; ond er ar y ffordd, ychydig oeddynt yr arwyddion y gwnelent eu hymddangosiad yn fuan, gan fod y meirch yn mhell o fod yn borthiantus ac yn anhywaeth wrth gludo cynnifer o Undodiaid, yr hyn nad oeddent yn gyfarwydd â gwneyd. Wedi iddynt gyrhaedd o'r diwedd, ar ol eu holl anhawsderau, dyddorol oedd eu clywed yn adrodd yr helyntion annymunol a ddarfu eu gorddiwes ar eu taith. Tybiem wrth wrando arnynt ein bod yn byw ryw hanner canrif neu ragor yn ol, pan oedd hen dadau'r enwad, yn ngwres eu cariad at y gwirionedd, yn troedio'r daith o gyrau eithaf Sir Aberteifi i wlad y mwg a'r tân, yn cwrdd â llawer anhap ar y ffordd, ac yn gorfod gwersyllu dros y nos rhag berw'r dymhestl mewn rhyw annedd dirion a fuasai yn barod i'w derbyn. Ond wedi cyrhaedd pen y daith, mawr oedd y mwynhad iddynt hwy adrodd a'r pleser i ereill wrando ar yr helbul a'r trybini y buont ynddynt.

Er ein bod, fel y crybwyllwyd, wedi cael benthyg y capel eangaf yn y lle, etto yr oedd, yn enwedig yn yr hwyr, yn annigonol i gynnwys y dyrfa enfawr oedd yn bresenol. Oddiwrth y ffyddlondeb diorphwys a ddangoswyd gan y cantorion, ac ereill, yn ystod y misoedd diweddaf, yr oeddem yn naturiol yn dysgwyl y caem gymmanfa lewyrchus; ond yr ydym yn sicr na ddarfu i neb freuddwydio am y fath lwyddiant perffaith. Dechreuwyd y cyfarfod cyntaf trwy weddi gan y Parch. N. R. Williams, Merthyr, a llywyddwyd gan y boneddwr hwnw sydd wedi dal pwys a gwres y dydd yn hanes Undodiaeth Merthyr—Mr. C. H. James, y cyn-Aelod dros Fwrdeisdref Merthyr. "Wrth edrych ar y dorf luosog o Undodiaid ag oeddynt yn bresenol, nid gwiw," ebai Mr. James, "oedd dannod fod yr enwad yn fach ei rif; ac hyderai y byddai ein cyfarfod a'i waith o fendith annhraethol i'n heglwysi yn gyffredinol." Ar ol anerchiad y llywydd, galwyd ar Mr. D. E. Jones, yr arweinydd, at ei waith, ac yna, cafwyd gwledd o ganu, acenion melus yr hon sydd yn tincian yn nghlustiau y rhai a'u clywsant hyd y dydd hwn. Pa ryfedd fod y cyfarfod hwn yn un dyddorol, pan ystyriom yr amrywiaeth doniau oedd yn ei gyfansoddi? Yn gyntaf, yno yr oedd yr arweinydd ar ei oreu yn trefnu ei gatrodau, ac yn llwyddo i ddwyn allan y felodedd swynol oedd yn y tonau, ac yn llanw pob enaid gwrandawgar â ffrwd o gerddoriaeth hyfryd, Gerllaw iddo, yr oedd y perdonydd enwog, Mr. R. Howell, o'r Maesgwyn, yn feistr ar ei waith, ac yn ddiddadl yn cyfranu'n helaeth tuag at lwyddiant y cyfarfod; yr oedd ei fedr yn chwareu yn amheuthyn i bob un a'i clywodd, ac yn peru i bawb waeddu, "Moes rhagor o hyd." Elfen fawr arall oedd y Parch. R. J. Jones, M.A., yr hwn, yn ei lais croew arferol, a ddarllenai yr emynau fel y dylent gael eu darllen, ac a wnaeth sylwadau dyddorol er adeiladaeth pawb. Annghofiodd y Parch. D. C. Jones (A.), Merthyr—ond nid am y tro cyntaf—ei Annybyniaeth, a chyfarfu â'i gyd-Gristionogion, yr Undodiaid, ar dir cyffredin caniadaeth y cyssegr. Er ei lesgedd, galluogwyd y Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach, i fod yn bresenol, ac i ychwanegu nodyn arall at y cydgord mawr.

Darfu i Alaw Brycheiniog, o'i brofiad helaeth ar gerddoriaeth, roi datganiad i amryw syniadau a gwersi buddiol, y rhai oeddent yn dderbyniol iawn gan y dorf. O dwrf ei fasnach, daeth Ap Carw, llywydd parchus ein Hundeb Ysgolion, o Aberdar, a darfu i'w bresenoldeb a'i eiriau roi ysgogiad adnewyddol i'r gweithrediadau. Melus oedd gwrando Llew Morganwg yn rhuo, er yn soniarus dros ben, ac yn annog y dewrion i ymarfogi. Canodd ei gân yn feistrolgar. Yn gymmysg â cheinciau'r telynorion, ffrydiai allan barabledd cynghaneddol y bardd Lewys Hopcyn, o Gythelid, ac odlau parod y bardd Henry Morgan, o Drebanos, ysgrifenydd hen Eglwys Gellionen. Er mwyn gwneyd y darlun yn berffaith, "heb ddiffygio mewn dim," daethai y Parch. Priestley Evans o feithder ffordd yn ol i hen fangre ei faboed i ddangos ei gydymdeimlad â'r mudiad daionus, ac i gymmeryd rhan yn ngorchwylion y dydd, ac yn ffrynt yr oriel, gellid clywed y cerddgar Fisher yn gwneyd ei oreu i chwyddo'r anthem. I

goroni'r oll, rhoddwyd pleidlais o ddiolchgarwch gwresog i bawb a gymmerasant ran yn y cyfarfodydd gan Hathren, ysgrifenydd y gymmanfa, a'r cerddor, Mr. W. Harries, o Goedycymmer. Ar yr un dydd, hefyd, cynnelid gwyl dê yr Hen-Dŷ-Cwrdd yn y Drill Hall, man eang, cyfleus iawn ar gyfer pethau o'r fath, ac yr oedd y brodyr a'r chwiorydd ar eu heithaf i wneyd pawb yn gysurus, ac hyderant fod pawb wedi eu boddhau. Llywyddwyd yn gampus yn nghyfarfod yr hwyr gan Mr. Thomas, un o'r ffyddloniaid gyda'r enwad yn Merthyr, ac yr oedd y cynnulliad yn fawr iawn—y capel, yr hwn a all seddu o 700 i 800, yn orlawn, a'r canu yn odidog. Ac yn awr, pan mae'r gymmanfa drosodd, nid gormodiaith fyddai dweyd i'r holl gorau wneyd eu rhan yn fendigedig; dangosasant ffyddlondeb mawr, ac aberthasant lawer, ond yr oedd y ffrwyth, ddydd y gymmanfa, yn destyn syndod i'r enwadau ereill oeddent yn bresenol. Bu yr arweinydd hefyd ar y blaen ar bawb yn ei sel, collodd lawer iawn o'i amser, ac aberthodd lawer o'i arian yn ystod y parotoadau; ond yr ydym yn sicr fod y boddhad a deimla yn llawn dâl iddo am ei waith. Carwn fod y cyfarfodydd ardderchog ydym wedi gael yn ernest o ymdrech egniol o du ein heglwysi etto yn y dyfodol. Ein hymgais fyddo suddo pob gwahaniaeth yn yr awydd o weled gwell agwedd ar ein hachos bychan yn mhob man, ac yn y pleser o weled y cymmanfaoedd hyn, ydynt yn gwneyd cymmaint dros ein caniadaeth, yn dyfod yn fwy-fwy llewyrchus. Awn rhagom, a boed i'n cyfarfod nesaf yn Nghastellnedd fod yn deilwng o honom.

DUW YN NGHRIST.

"Ni welodd neb Dduw erioed; yr uniganedig Fab, yr hwn sydd yn mynwes y Tad, hwnw a'i hyspysodd ef," Ioan i. 18. Nid ydym i feddwl oddiwrth y geiriau hyn mai Crist yw yr unig ddatguddiad sydd wedi ei roddi o Dduw: mae y greadigaeth ddefnyddiol (*material creation*) yn ddatguddiad gogoneddus o hono, yn enwedig yn ei fodolaeth a'i briodoleddau naturiol, megys ei allu, ei ddoethineb, a'i brydferthwch; ond yn ei briodoleddau moesol y mae, i raddau mawr, dan gymmylau a thywyllwch, ond yn Nghrist y maent yn dyfod i'r golwg yn y modd mwyaf hyfryd a gogoneddus. Ond nid yn Nghrist yn unig y maent yn cael eu datguddio: y maent i fesur yn cael eu datguddio yn y ddynoliaeth; mae pob dyn wedi ei gynnysgaethu â holl briodoleddau bywyd y Creawdwr, ond nid i'r un graddau—yn rhai mewn graddau mor fychain fel mai o'r braidd y gellir eu gwahaniaethu oddiwrth yr anifail; yn ereill mewn graddau helaethach; ond y dyn Crist Iesu a gynnysgaethwyd i'r graddau helaethaf ag oeddynt yn ddichonadwy â phriodoleddau bywyd Duw: "Nid wrth fesur y rhoddodd Duw iddo ef yr Ysbryd."

Yn ngwyneb y datguddiad y mae Duw wedi ei roddi o hono ei Hun yn Nghrist, y mae wedi arfaethu yn benaf i gymmodi y byd ag Ef ei Hun; yn ngwyneb y datguddiad y mae wedi ei roddi o hono ei Hun yn y grea ligaeth, er mor ogoneddus yr ymddengys, mae yn wrthddrych i'w ofni yn hytrach nâ'i garu; ond ag edrych arno yn Nghrist, y mae oll yn hawddgar a dymunol, fel y mae ein serchiadau yn cael eu hennill i'w garu ac ymhyfrydu ynddo.

Mae y syniad ag yr ydym wedi ei fras ddarlunio am Dduw yn Nghrist yn ymddangos i mi yn hawdd ei gyssoni a ffeithiau yn mhrofiad dyn a dysgeidiaeth yr Ysgrythyrau am Grist, ac a dysgeidiaeth Crist am dano ei hun. Mae yn ymddangos i mi yn hawdd ei gyssoni â ffeithiau yn mhrofiad dyn. Mae pob dyn, pa mor isel bynag y byddo, yn ymwybodol o alluoedd ag ydynt yn ei ddyrchafu yn uwch nâ'r anifail. Mae y syniad hwn yn ymddangos yn gysson â dysgeidiaeth yr Ysgrythyrau am Grist, megys "delw Duw," "Duw a ymddangosodd yn y cnawd." Yn ddiweddaf, mae y syniad hwn yn ymddangos i mi yn hawdd ei gyssoni â dysgeidiaeth Crist am dano ei hun. Mae bob pryd, yn mhob peth a ddysgai ac yn mhob peth a wnelai, yn arwain y meddwl oddiwrtho ei hun at Dduw.

Dowlais. E. MORGAN.

EFENGYL YR IESU.

Yn Efengyl yr Iesu y mae gwirioneddau mawrion ag ydynt yn amlwg ar wahan oddiwrth y gwirioneddau eraill, yn ddysglaer fel y wawr, ac yn llanw yr enaid a goleuni. Y mae meddyliddrychau arweiniol ag ydynt yn dadgloi yr Efengyl, ac yn allweddi Teyrnas Nefoedd. Ceisiwch yn gyntaf y gwirioneddau hyn, ac mae pobpeth arall sydd o bwys yn meddwl yr Iesu yn sicr o ddyfod ar ol hyny. Pan yr ydym ni wedi cael gafael yn y gwirioneddau hyn, mae genym feddwl Crist. Gellir galw y gwirioneddau hyn yr Efengyl yn yr Efengylau.

Un o'r Efengylau hyn ag sydd megys canolbwynt yr holl rai ereill, ac yn treiddio'r cyfan, yw cariad tadol Duw tuag at ei holl blant ar y ddaear. I'r Iesu ni dlaeth Duw erioed fel Gallu, fel Deddf, fel Deall, a hyny yn benaf: ond yr oedd yr holl briodoleddau hyn yn israddol i dynerwch annherfynol y Tad. Nid oedd Tadoldeb Duw iddo ef yn athrawiaeth, ond yn brofiad byw, o ddechreu ei fywyd hyd ei farwolaeth. Yn ei Bregeth ar y Mynydd, dywed wrth ei ddysgyblion ar bymtheg o wahanol achlysuron am "ei Dad, yr Hwn sydd yn y Nefoedd." Yr oedd yr Iuddewon yn ei gyhuddo am gymharu ei hun i Dduw, pan oedd yn galw Duw yn Dad iddo. Ond yr oedd hyn yn brawf o'u culni nhw, oblegyd 'doedd yr Iesu erioed wedi gosod hawl neillduol ar mai efe oedd unig fab Duw, ond dysgai fod pawb dynion, hyd y nod y drygionus a'r anniolchgar, yn blant i'r un Tad ag oedd yn y Nefoedd. Yn ei loes ddiweddaf, dywedodd, "Dad, os yw bossibl, aed y cwpan hwn heibio,"

ac ar y groes, dywedodd, "Dad, i'th ddwylaw Di y gorchymynaf fy ysbryd;" a phan oedd yn gorfod ymadael a'r ddaear, dywedodd wrth ei ddysgyblion, "Yr wyf yn myned at fy Nhad I a'ch Tad chwithau, fy Nuw I a'ch Duw chwithau."

II. Gwirionedd mawr a llywodraethol arall o eiddo Efengyl yr Iesu oedd ei athrawiaeth am Deyrnas Nefoedd. Yr oedd y bobl yn edrych am rywbeth allanol: iddo ef yr oedd teyrnas nefoedd yn rhywbeth mewnol. Yr oeddent yn dysgwyl am Fesseia o allu: daeth fel Messeia o wirionedd a chariad. Yr oedd teyrnas y Messeia i ddyfod atynt hwy mewn arwyddion a rhyfeddodau: at yr Iesu mae yn dyfod heb ddysgwyl. Yr oeddynt hwy yn edrych am yr amser pan fyddai'r gallu hwn o'u tu hwy, a phan y buasent hwythau yn feistri y byd. Darfu i'r Iesu wrthdroi yr holl feddyldrychau poblogaidd hyn. Credai y gallasai orchfygu drygioni trwy ddaioni: anwiredd trwy wirionedd: gormes trwy ddarbwyllo: drwg trwy ddwyn y drygionus i'e lifeirwch. Credai, gyda i holl feddwl, ei holl galon, a'i holl nerth, yn hollalluogrwydd daioni, ac mai'r unig ffordd i orchfygu drygioni oedd trwy allu gwirionedd a chariad. Yn y ffydd hon yr oedd gallu ei Efengyl yn gynnwysedig.

III. Gwirionedd arweiniol arall yn Efengyl yr Iesu oedd eangder ei gydymdeimlad dynol. Yr oedd wedi cael ei ddwyn i fyny a'i addysgu yn nghanol rhagfarnau Iuddewig. Yr oedd yn troi mewn cymdeithas ag oedd yn elyniaethus i'r Rhufeiniad: ond yr oedd e'n gyfaill i'r canwriad Rhufeinig, yn iachau ei was a dweyd, "Ni chefais gymmaint ffydd, naddo, yn yr Israel." Nid oedd yr Iuddewon yn ymgyfeillachu ar Samariaid, ond fe wnaeth yr Iesu Samariad yn arwr un o'i hanesion mwyaf swynol a phry ferth. I'ddo ef nid oedd na Groegwr nac Iuddew, na barbariad na Scythiad, na chaeth na rhydd, dim ond bodau dynol. Elai efe y tu allan i derfynau ei oes ei hunan, y tu allan i arferion ei bobl, y traddodiadau ag oeddynt yn ffynu yn y wlad oddiamgylch iddo, y tu allan i farn y werin yn yr hon yr oedd efe wedi cael ei eni, a chymmerodd ei safle ar frawdoldeb dyn. Yn hyn yr oedd ef gymmaint o flaen ei oes, fel nad oedd un o'i ddysgyblion, hyd nes y daeth Paul, yn gallu dirnad yn gyflawn yr elfen eang hon yn ei addysgeidiaeth

IV. Gwirionedd canolog arall yn Efengyl yr Iesu oedd ei ffydd ddofn yn ei genadwri at y pechadur, y truenus, a'r sawl oeddynt wedi colli pob gobaith yn y byd presenol, ac yn cael eu sathru dan draed y byd. Credai fod ei waith ef bron yn gyfangwbl at y bobl hyn. Dywed Eglwys Gristionogol heddyw ddim wedi codi at y ffydd hon. Credant fod yr Iesu wedi dyfod i *geisio* y rhai a gollasid, ond ni chredant iddo ddyfod i'w *hachub* nhw. Pan y siarada'r Eglwys am y "rhai a gollasid," golyga y sawl y mae hi'n ystyried wedi eu colli am byth, y sawl ag mae'r Iesu yn anabl i'w hachub. Darfu iddo ef gymharu y Tad Nefol i Fugail Da, yr hwn a aeth i edrych am y ddafad a gollasid, "*hyd onis caffodd efe hi.*" Dywedodd, mai nid ewyllys y Tad oedd i un o'r rhai bychain hyn gael eu colli. Er hyny, mae Iawnffyddiaeth heddyw yn gwadu ei bod yn bossibl achub y paganiaid, a'u bod wedi

myned y tu hwnt i derfynau'r cadw can gynted ag mae'r bedd yn cauad arnynt.

I'r Iesu yr oedd cariad yn hollalluog: yn sicr o orchfygu drygioni yn y diwedd—yn abl i waredu, gyda gallu annherfynol i achub. Ni ddywedodd erioed fod Duw i ranu llywodraeth y bydysawd hwn â Satan: gan gadw'r nefoedd ar gyfer ei saint, a gollwng uffern i gael ei llywodraethu gan dywyllwch ac anobaith. I'r Iesu, yr oedd cosp yn ganlyniad naturiol, nid yn weinyddiad mympwyol. Fe ddelai y pechadur ag oedd yn marw o newyn, gyda chalon ac enaid newynog, fe ddelai o'r diwedd ato ei hunan, gan ddweyd, "Mi a godaf ac a af at fy Nhad," a'r pryd hwnw fe welai'r Tad of o draw, ac fe ddywedai, "Fy mab hwn oedd farw, ac a ddaeth yn fyw drachefn; efe a fu golledig ac a gafwyd."

Fel hyn, mae genym bedwar gwirionedd yn Efengyl yr Iesu.—Ffydd yn nghariad tadol Duw, Teyrnas Dduw ag sydd yn trigo oddifewn i ni, a gallu holl orchfygol y gwirionedd, cangder ei gydym deimlad dynol, ei genadwri at y pechadur a'r gwrthodedig. At y rhai hyn gallwn ychwanegu un arall—ei hyder yn yspryd crefydd a'i ddifaterwch i'w llythyren hi.

DAMMEG YR YSGUTHAN A'R BIOGEN.

Ysguthan, un diwrnod, o ben y goeden syth,
A welai y Biogen yn prysur wneyd ei nyth;
Gofynai ganddi gynghor, er gwneyd ei nyth ei hun,
'Run fath â hwnw'n union, o ran ei faint a'i lun.

Atebai'r llall yn barod, "Wrth ddechreu gwna fel hyn,
'Nol gosod brigau'n groesion, rhaid gwasgu'r plu yn dyn;"
Ond 'rol pob cynghor gaffai, er gwneyd ei nyth yn grwn,
Dywedai mewn atebiad o hyd, "Mi wn, mi wn."

Dywedai'r llall o'r diwedd, ar ol atebion maith,
"Paham y ceisi gynghor, os gwyddost drefn y gwaith?"
Fel hyn mae pawb hunanol, sy'n aros byth yn blant,
Ant wrth eu ffordd eu hunain er gofyn cynghor gant.

Gwalchmai.

ADDEWID Y MEDDW.

"Yfory" medd y meddw,
"Mi a droaf oddiwrth bob bai;"
Gwell iti ddechreu heddyw
Bydd gwaith yfory'n llai.—Glan Gors.

—*Y Greal.*

ADDYSG GREFYDDOL.

Crynodeb o bapyr a ddarllenwyd yn Saesneg gan y Parch. W. Parry, Penybont, yn Abertawe, Ebrill, 1890.

Mae ein hoes ni yn hynod am ei chred mewn addysg. Edrychir ar addysg gan lawer fel meddyginiaeth ar gyfer holl ddrygau bywyd. Er na chredaf fod addysg ddeallol yn unig yn myn'd i ddwyn oddiamgylch y fath gyfnewidiad yn y natur ddynol, yn amgylchiadau bywyd, ac yn hawddfyd dynolryw, fel y tybir gan luaws, etto, yr wyf yn credu yn galonog mewn addysg. Ond y wir addysg yw addysgu, neu ddadblygu, cyn belled ag sydd yn bossibl, yr *hoil ddyn*, corff, meddwl, ac enaid. Gall addysg ranol arwain i fwy o ddrwg nag o dda. Dichon i hyn ymddangos yn gyffredin i ni, er hyny, mae yn bwnc y byddai yn dda i ni ei astudio yn fanwl yn yr oes hon pan y cyfrenir cymmaint o arian tuag at addysg, ac y treulir cymmaint o amser gwerthfawr er ei chyrhaedd. Gallwn yn hawdd ddeall fod addysg ddeallol, pan yr ennillir hi ar draul y corff, yn anaddasu dyn, yn hytrach na'i gymhwyso at orchwylion cyffredin bywyd. O hyd fe ddeil yr egwyddor o feddwl iachus mewn corff iachus. Yr wyf yn ofni ein bod ni yn y blynyddoedd diweddaf hyn, wedi gwyro oddiwrth yr egwyddor hon yn ormodol, pan yn gorfodi y tlodion i ddanfon eu plant i'r ysgol am gyfnod maith o amser pan nad oedd ganddynt hanner digon i gynnal eu cyrff. 'Does dim amheuaeth na symmudir llawer o hyn yn y dyfodol agos pan y cawn ni addysg rydd. A'r cyfan a allaf obeithio, pan y cawn ni ein hysgolion rhydd, na annghofiwn ni ddim fod hi'n annichonadwy i lyfrau borthi cylla gwag.

Er fod dyn yn unigolyn, ac fod beth bynag sy'n effeithio ar un elfen o'i fodolaeth yn effeithio mewn rhan ar yr holl ddyn, etto, mae'n bossibl i un rhan o'i fodolaeth gael meithriniaeth a dadblygiad da, tra mae rhan arall yn edwino. Mae'n bossibl fod genym fraich neu glun wywedig mewn cyssylltiad â chorff cryf, neu ddeall miniog mewn cyssylltiad â chorff sy'n dadfeilio. Yr un fath y gall y galluoedd meddyliol fod wedi eu haddysgu a'u dadblygu'n dda, tra mae y cynneddfau moesol ac ysprydol yn mron marw. Mae cymmeriad moesol ac ysprydol isel llawer dyn yn y safle uchaf mewn bywyd, ac o'r addysg feddyliol oreu, yn ddigon o brawf o hyn. Gan mai hyn yw'r ffaith, ofer i ni ddysgwyl y dyg addysg ddeallol yn unig oddiamgylch yr hawddfyd perffaith hwnw yr ydym oll yn dymuno am dano.

Dylai dadblygiad cynneddfau moesol ac ysprydol y corff fyn'd ochr yn ochr â dadblygiad y cynneddfau deallol.

Carwn, ar yr achlysur presenol, ddatgan ychydig eiriau yn ffafr addysg grefyddol, yr hon, fel y credaf, yw angen mawr yr oes hon. Mae arnom eisieu yr addysg grefyddol uwch hon yn awr yn neillduol, pan mae coelgrefyddau y gorphenol a'i gred mewn uffern diagwyddol a'r cyffelyb, y rhai a arferent fod y prif rwystrau i gyflawnu drwg, yn awr yn cilio o flaen goleuni addysg. "Mae yr hen drefn yn newid, gan roi lle i'r newydd." Ein dyledswydd ni yw edrych na fydd y

newydd yn fwy dinystriol nâ'r hen, ac er mwyn osgoi hyny, rhaid i ni arfer dylanwad crefydd bur yn y dyfodol, yn lle dylanwad ofergoeledd yn y gorphenol.

Wrth addysg grefyddol 'rwy'n golygu nid yn unig trysori i gof ryw gredoau neu gatechismau neillduol, na darllen y Beibl yn yr ysgolion, nac unrhyw beth cyfyngedig i dair blynedd ar ddeg cyntaf bywyd. Gyda mi cynnwysai addysg grefyddol addysg foesol hefyd; nid wyf yn credu mewn crefydd heb foesoldeb. Can belled ag y gallaf fi egluro addysg grefyddol, golygai hyfforddi mewn hunan-lywodraeth, gonestrwydd, geirwiredd, hunan-aberth, maddeugarwch, cariad, parch, ac ymddiried. Gwnawn ystyried hwnw wedi ei addysgu yn grefyddol, yr hwn a allasai garu Duw â'i holl galon a'i holl nerth, a'i gymmydog fel ei hunan, yr hwn a allasai ymgyflwyno i Ewyllys Duw yn mhobpeth, a gwneyd ei waith appwyntiedig yn y byd, nid fel pe am foddloni dynion, ond Duw a'i gydwybod ei hunan, neu "gweithio yn y presenol byw, calon oddifewn a Duw uwchben." Dylai yr addysg hon barhau trwy gydol bywyd. Gall ddechreu bron yn y cryd. Gwyddom fod y rhan fwyaf o'r gwyr a'r gwragedd godidocaf y mae'r byd wedi wel'd erioed yn priodoli eu llwyddiant i'r addysg grefyddol foreu a dderbyniasant. Bu gan Channing, Theodore Parker, Mary Carpenter, ac ereill, rieni duwiol; amgylchynid hwy gan ddylanwadau crefyddol o'r cryd. Rhydd Carlyle deyrnged o barch diffuant i goffadwriaeth ei fam am y dylanwadau bendigaid a effeithiasant ar ei fywyd. Mae yn wir fod y plentyn yn dyfod i'r byd yn feddiannol ar allu sy'n tueddu yn naturiol i ryw gyfeiriad neillduol; ond mae yr un mor wir fod galluoedd ereill oddiwrth yr hyn a'i hamgylchyna yn myned i fewn i'w fodolaeth yn ystod ei holl fywyd, ac fod y canlyniad, neu ei gymmeriad, yn dra gwahanol i'r hyn a fuasai yn annybynol ar y galluoedd hyn.

Sefydlwyd ein *reformatory schools* a sefydliadau cyffelyb ar yr egwyddor hon. Gall holl fywyd gael ei newid a'i ddiwyllio gyda gofal a chwrtaith. Cyfnewidir yn raddol ein blodau, ein coed ffrwythau, a'n hanifeiliaid dof, er mwyn gwasanaethu eu hamcan goreu. Dywed Darwin ac ereill wrthym y gall Natur gymhwyso ei hun at ein gofynion newydd. Mae'r diwalliad yn fuan i fyny â'r gofynion. 'Dyw dyn ddim yn eithriad i'r rheol hon; gall yntau gael ei gyfnewid a'i ddiwyllio trwy ofal a chwrtaith. Mae dylanwadau ei gartref, ei fywyd yn yr ysgol, ac yn neillduol ei fywyd yn ddiweddarach, yn ei newid ef er gwell neu er gwaeth. Ac fe all yn raddol wneyd diwalliad ei gymmeriad i gyfateb i'r gofynion sydd arno.

Am y rheswm fy mod yn credu fod dynolryw yn abl i ymgyrhaedd at rywbeth uwch na'r hyn yw bywyd y dydd heddyw, yr anturiaf fi ddweyd gair o blaid safon foesol ac ysprydol uwch, ac o blaid addysg grefyddol fwy gofalus. Os nad wyf yn camsynied, mae math o anffyddiaeth mewn perthynas i grefydd yn ymdaenu yn llechwraidd dros y byd heddyw, a chred fod crefydd yn burion i blant, i wragedd, a phobl nad oes ganddynt ddim i'w wneyd, ond yn hollol allan o le ar gyfer dynion helyntus y byd. Ac er ein gofid, rhaid i ni gyfaddef fod llawer o wir yn hyn. Ond rhaid i ni geisio gwella hyn; rhaid i ni

ymdrechu cael yr holl ddyn wedi ei lanw a chrefydd o onestrwydd, o gariad, o barch ac ymddiried; rhaid i ni ymdrechu cael y byd i ymgyrhaedd at yr uchelfan uwchaf ag sydd yn bossibl iddo. Yna, gallwn hyderu mai "da fydd diwedd pob daearol foes," ac "y try pob gaua'n wanwyn gwyrdd."

NODYNAU GWASGAROG.

DYLEDSWYDD.

Di'r hwn wyt yn byth-lewyrchu ar ein baner ddysglaer ferth,
Rhyddid! ni ddadguddiwyd eto, ddim o'r hauer am dy werth;
Ond mae heddyw ein cân am hynach a rhagorach nag wyt ti,
Y mae sel dechreuad amser ar ei hael ofnadwy hi,—
Hi, Dyledswydd! Teyrnwialen nefol sy'n ei llaw'n ddi baid;
Eiddo hi y llais gorch'mynol, a'r cyfriniol, ddeddfol, *Rhaid!* gryf;
Ond mae'i rhwymau'n felus, melus; mae ei beichiau'n gwneyd yn
Edyn roddant i draed blinion, i'n gwefusau chwerthin hyf.
Nad b'le bynag yr arweinio, dan faich newydd ddydd 'rol dydd;
Rhyddid! dyro in' byth gael teithio yn ei dysglaer lwybrau'*n rhydd!*

T. C. U. CHADWICK.

Rhoddwyd ein synwyrau i ni i fod yn gyfrwng trosglwyddiad gwybodaeth o'r byd allanol, a thrwyddynt cedwir ni mewn cyflwr o ymchebiaeth parhaus. Mewn ystyr mae cynnydd ein gwybodaeth o flwyddyn i flwyddyn yn synfawr. Ychwanegir maes at faes o hyd oddiar diriogaethau anwybodaeth, ond heb fyth ein boddloni. Nid yw ychwanegiad cyfoeth yn y cyfeiriad yma hefyd ond ychwanegiad trachwant am fwy; oddiar uchelfan heddyw ceir golygfa eangach nag erioed; ac nid yw esgyniad ac ennilliad yr uchelfanau ond megys yn agor ac yn arddangos uchelfanau newyddion etto i'w meddiannu. Fel hyn fe'n cedwir o hyd ar ein heithaf. Gwneir bywyd i ni o hyd yn ymdrech. Yn ddiamheu, y mae dyn wrth natur yn sionholwr. Dyma *secret* mawr ei gynnydd a'i flaenfynediad. Po fwyaf ffyddlon fyddo i'w natur sicraf i gyd fydd ei lwyddiant.

PWY YW Y GWIR ANFFYDDWYR?

Ar y 9fed o Fehefin, traddododd y Parch. W. Copeland Bowie, cenadwr dros y Gymdeithas Undodaidd yn Llundain, ddarlith ar y testyn uchod yn y Nottais, pryd y cadeiriwyd gan Mr. W. J. Phillips. Cyfeiriai y darlithydd at y modd yr oedd yr Undodiaid yn cael eu cam-

farnu—weithiau gan y sawl oeddent yn hollol anwybodus o'r hyn oedd golygiadau yr Undodiaid; weithiau gan y sawl oeddynt â rhagfarn yn eu herbyn, a phryd arall gan y sawl a wnelent hyny yn wirfoddol. Ond nid oedd o fawr pwys, oblegyd ein hunig amcan ni, fel Undodiaid, oedd chwilio am y gwirionedd, ac er nas gallwn blymio dyfnderoedd yr Anfeidrol, etto, os ydym yn ddidwyll yn ein hymgais, bydd Duw yn sicr o amlygu ei Hun i ni yn ddigonol i osod ein hymddiried ynddo. Gair o anmharch oedd "Anffyddiwr," yn cael ei arfer gan un blaid o bobl i osod allan blaid arall nad oedd yn mynychu un eglwys, neu nad oedd yn dal yr un syniadau. Eglurodd yr hyn a ddywedai trwy gyfeirio at dri dyn—tri athraw mwyaf a goraf gwirionedd, a nododd sut mae'r sawl ydynt wedi gwneyd mwy na neb i ledaenu gwybodaeth o Dduw a chariad at ddaioni wedi cael eu hystyried fel anffyddwyr, ac mewn rhai amgylchiadau, wedi cael eu gosod i farwolaeth fel terfysgwyr cymdeithas. Sylwold na wnai neb oedd wedi cael gafael yn egwyddorion sylfaenol y grefydd Gristionogol gymhwyso y gair at y sawl oeddent yn ffyddlon i'w hargyhoeddiadau mwyaf didwyll. Y gwir anffyddiwr yw y dyn *nad* yw n ffyddlon i w argyhoeddiadau, *nad* yw'n ffyddlon i'w deimlad o'r hyn yw gwirionedd a rawnder. Y gwir anffyddiwr yw y dyn sy n *dweyd* ei fod yn credu un peth, ond yr hwn, trwy weithredoedd ei ddwylaw, sy'n gwadu'n bendant eiriau ei enau. Gwasgai ar feddyliau ei wrandawyr i fod yn ffyddlon i'w meddylddrychau goreu, a theimlai fod Cariad Duw yn ddigon eang i gynnwys pawb, hyd y nod pe baent wedi bod yn gyfeiliornus yn eu syniadau am dano.

DYCHYMYG I SYR HUW ROBERTS lôn.

Beth sy'n cnoi dan droi dwndwr wag briwfwyd
Heb brofi yd na brag
Nid a yn llawn ddawn ddinag
Ni theifl ei thamaid, ni thag.

Edm. Prys.

Gwr mwyn wrth gadwyn, nerth gedyrn ddwyen
A faddeuai defyrn
Ni phrawf gig, udychymyg chwyrn
Ac yn waisg e gny esgyrn.

H. Roberts.

Y DIWEDDARAF O RYDYCHAIN.

Y Gwenogfryn yn arwain un o'r newydd-ddyfodiaid ar ymweliad heibio i olygfeydd y Brif Ysgol, yn cyfeirio ei sylw at dair o boteli gleision ar arffed ffenestr un o'r ystafelloedd, ac yn gofyn a wyddai

beth oeddynt; wedi cael atob nacaol, yn esponio mai dyfais ddiweddar ydynt at ddiffodd tân. Os teflid un o'r poteli i ganol tan mawr, y ffrwydrai y botel gyda'r canlyniad o ddiffodd y tân. Yr oedd boneddwr cyfoethog yn ddiweddar, yn Rhydychain mae'n debyg, yn tybied ei fod yn tynu at ei derfyn. Ysgrifenodd ei ewyllys, mae pob dyn call yn gwneuthur hyny; yr oedd wedi clywed am y ddyfais, ac er mwyn dyogelwch yn ol llaw, gosododd gyfarwyddyd yn yr ewyllys fod chwech o'r poteli gleision—y patent newydd yma—i gael eu dodi yn ei goffin!

HOLIADAU.

Sawl rhestr o ddannedd sydd gan ddafad? Pa fodd y gwahaniaethwch rhwng broga a llyffant? Beth ydyw y gwahaniaeth rhwng pig aderyn yn byw ar gig ac un yn byw ar lysiau? Beth ydyw y gwahaniaeth rhwng dannedd creadur yn byw ar gig ac un yn byw ar lysiau? A oes rhyw ddyben i liwiau heirdd y blodau? Q Q.

BLWYDDYN 1782.

Caled i'r gweinied bu'r gwanwyn, a'r haf,
Wir hefyd trwy'r flwyddyn
Moliant am hindda melyn
Ewyllys Duw, er lles dyn

Ond chwith bu'r gwenith o'i go 'rhyn fyddai
Ryfeddol i'w gofio
Pump swllt neu chwech, trech fu'r tro,
Ar hugain, oedd yn rhwygo.

Peidiwyd a gwneuthur pwding, o'r goreu,
Ar gerig Llanfylling,
Yr oedd yr haidd braidd yn bring—
Y sala yn *Fifteen Silling.*

Am cullyn fenyn yn fynych, cynnig
Naw ceiniog yn daerwych
No, no, dan swnio'n sych
Chwaneg 'r oedd rhai yn chwenych

Arglwydd Ion, pirion Ddarparwr, da oll
Deallodd ein cyflwr
Daeth lluniaeth helaeth hwyliwr
Drwy Iesu a'i Dad, dros y dwr.—W. D. (?)

—*Drych y Ffurfafen* am 1783.

Dywedir fod llyfr mawr wedi ei ysgrifenu yn ddiweddar i brofi nad oes hanes fod neb wedi gwrthwynebu athrawiaeth y Drindod yn ystod y tri chanrif cyntaf o'r cyfnod Cristionogol; a'r casgliad a dynir oddiwrth hyny yw fod pawb yn credu y Drindod. Ysgrifenodd Lamson ei lyfr *Church of the First Three Centuries* i brofi yn benaf nad oes son am Drindod o gwbl yn y cyfnod hwnw. Y casgliad naturiol: nad oeddynt yn gwybod dim am Drindod ar y pryd.

A DDYLID RHOI IAWN I DAFARNWYR?

Y MAE tri dosparth neillduol o ddynion yn y wlad hon wedi bod mor ffortunus a chael eu cyfrif yn wrthddrychau tosturi i'r Llywodraeth bresenol, sef y tirfeddiannwr, yr offeiriad, a'r tafarnwr. Y mae y prif fesurau sydd yn awr yn cael eu hystyried gan Dŷ y Cyffredin wedi cael eu hamcanu i lesoli y tri dosparth uchod. Mae Mesur Pryniad y Tir yn yr Iwerddon wedi ei ddwyn yn mlaen er mwyn cynnorthwyo'r tirfeddiannwyr Gwyddelig; Mesur y Degwm er cynnorthwyo'r offeiriad; a Mesur yr Iawn i Dafarnwyr er cynnorthwyo'r dosparth hwnw, a digon tebyg y bydd y dospeirth hyn, pan y cànt gyfleusdra, yn ofalus i dalu eu dyled i'r Llywodraeth. Yr wyf am alw sylw yn fyr at y mesur olaf a enwyd uchod. Ei amcan yw rhoddi hawl i'r awdurdodau lleol i leihau nifer y tafarndai, ac i roddi iawn i'r tafarnwyr hyny fyddant yn cael eu hamddifadu o'u trwyddedau. Yn y gyllideb ddiweddaf, gwnaeth Mr. Goschen gynnygiad i godi ychydig yn rhagor o dreth ar wirodydd, ac hefyd i droi yr arian ychwanegol a godwyd ar gwrw y llynedd yn fath o gronfa leol, ac o'r swm a gesglid felly, yr oedd y swm o £350,000 i gael ei ddefnyddio er lleihau nifer y tafarndai yn y wlad, trwy roddi iawn i'r perchenogion am eu colled. Diangenrhaid yw dweyd fod y mesur wedi creu teimlad gwrthwynebol cryf trwy yr holl wlad, o herwydd, mewn gwirionedd, nid yw yn rhoddi boddlonrwydd hyd y nod i'r tafarnwyr, chwaithach i'r werin. Yn y lle cyntaf, nid yw y swm a gynnygir gan y Llywodraeth at ddwyn hyn oddiamgylch ond megys dim at yr hyn a fernir fydd yn eisieu. Y mae Mr. Caine, un o ddirwestwyr mwyaf selog a phybyr y Senedd, yn barnu na fydd dim llai na dau can' miliwn o bunnoedd yn eisieu cyn y gellir gwneyd yr hyn y bwriedir ei wneyd gan y mesur dan sylw; a chan nad yw Mr. Goschen yn cynnyg dim ond tri chant a hanner o filoedd, bydd y gweddill yn rhwym o gael eu codi trwy ryw gyfrwng arall, a chan nad trwy ba gyfrwng bynag y gwneir hyny, bydd yn rhwym o ychwanegu at faich y trethdalwyr, ac y mae y beichiau hyn eisoes yn ddigon trymion. Ond heblaw hyn, y mae gwrthwynebiad cryf yn codi o herwydd rhesymau ereill, a rhesymau llawn mor gadarn. A oes gan y tafarnwr hawl i iawn o herwydd fod ei drwydded wedi ei chymmeryd oddiwrtho? Y mae pob tafarnwr yn gwybod yn eithaf da, pan yn cael ei drwydded, nad yw yn parhau ond am flwydd-

yn, ac fod gan yr awdurdodau hawl gyfreithiol yn bresenol i wrthod adnewyddu ei drwydded, os yn dewis gwneyd hyny, a hyny heb son dim am iawn. Yr wyf yn foddlon caniatau fod dau ddosparth o dafarnwyr; mae un dosparth yn cael ei wneyd i fyny o'r sawl ydynt wedi bod yn dafarnwyr trwy eu holl oes, heb ganlyn un alwedigaeth arall ond hyny; a'r llall o'r sawl ydynt wedi gadael eu galwedigaethau er mwyn y bywyd esmwythach sydd yn y dafarn. Am y cyntaf, yr wyf yn foddlon caniatau y buasai yn greulondeb i gymmeryd ymaith oddiwrthynt yr unig alwedigaeth y maent hwy yn gwybod dim am dani, a phe buasai hyn yn cael ei wneyd, ni fuasai ond teg iddynt gael iawn am eu colled; ond yr wyf yn dal, er hyny, y dylid dyfeisio rhyw ffordd i godi arian at dalu'r iawn hwn heblaw eu codi oddiar y trethdalwr. Ond am yr ail ddosparth, yr wyf yn methu gweled pa hawl sydd ganddynt i gael iawn o gwbl. Y maent wedi ymgymmeryd â'r gwaith yn hollol ar eu cyfrifoldeb eu hunain, er eu lles eu hunain, ac nid ar gais a dymuniad y trethdalwyr. Ond a gadael hyn, y mae yna wedd bwysig arall i'r pwnc, sef a fydd y gwaith o leihau y tafarndai yn debyg o gyrhaedd yr amcan y proffesa'r Llywodraeth ei bod am ei gyrhaedd, sef lleihad meddwdod. Nid oes un sail dros gredu y gwna ddim o'r fath beth. Ni fyddir yn well o leihau y tafarndai gyda'r gobaith y bydd hyny yn lleihau meddwdod. Nid yw gorfodaeth wedi llwyddo erioed etto mewn unrhyw achos yn hir, ac nid yw yn debyg y llwydda yn yr achos hwn. Meddylier, er enghraifft, fod hanner y tafarndai yn cael eu cau, ni fuasai hyny ond yn unig yn lleihau'r cyfleusderau, ac nid yw yn debyg y buasai gwanc dynion am gwrw yn lleihau dim. Mewn gwirionedd, nid oes ond dwy ffordd i ddwyn hyn oddiamgylch yn effeithiol, sef trwy gyfnewid arferion y bobl, a dinystrio yr elw a dderbynia y Llywodraeth oddiwrth y fasnach feddwol. Yn y cyfeiriadau hyn y dylai gwir garedigion sobrwydd gario yn mlaen eu hymdrechion. Ond am ddefnyddio arian y trethdalwyr i roi iawn i dafarnwyr, y mae y fath beth yn hollol afresymol ac annheg, a gobeithio y bydd y teimlad cryf sydd wedi ei gyffroi trwy'r holl wlad gan y mesur yn ddigon nerthol i drwystro y fath gyfraith i gael ei dwyn i weithrediad, ac os yn bossibl, rhag cael ei phasio hefyd. PHILOS.

BALCHDER.

YMSWYN balchder bob amser—yn ddilys
A ddylem; o'i arfer
Awn i flin ofid aflêr;
Y gwarth hudol gwrthoder.

Hyll besgydd ar ereill bysgod—ydyw
Y creadur hynod;
Y cas beth! mae'n ceisio bod
O achau pobpeth uchod.

Llandyssul. GLAN CERDIN.

LLETTYGARWCH SIBERAIDD.

Darlunia un o aelodau mintai ymchwiliadol yn Siberia ei brofiad mewn tŷ brodorol fel y canlyn :—

Nid oes wahaniaeth pa mor gynnar y dihunwch yn y boreu, ceir meistres y tŷ bob amser "i fyny"—hyny yw, wedi newid ei gosgedd o orwedd i eistedd—ac mor fuan ag y sylwa hi eich bod yn wirioneddol effro, estyna i chwi ychydig ddarnau bychain o gig—dim llawer—dim ond wns neu ddwy efallai ; ond bydd i hyny gadarnhau eich giau hyd amser boreubryd--hyny yw, nes y deffry y lleill. Yna, ä i'r ystafell nesaf, yr hon nid yw ond lle i gadw y cŵn oddiwrth fwyd y tŷ, ac ar ol pymtheg neu ugain munyd o bwnio a thori, dychwela â'r boreubryd yn ei dwylaw. Gosodir *tray* pren mawr, gwastad, ar y llawr, a chymmer y llettywraig ei lle wrth un pen, lle yr eistedda ar ei garau. Ymgasgla y teulu a'r gwahoddedigion gylch y bwrdd o bobtu, gan orwedd yn eu hyd ar eu cyllau, gyda'u penau tuag at y boreubryd a'u traed allan, fel, ag edrych ar y bwrdd a'r gwahoddedigion o bellder, yr ymddangosent yn rhywbeth tebyg i chwilen enfawr.

Y gyfran gyntaf a geir i'w bwyta yw ychydig o lysiau rhewedig yn gymmysgedig ag olew morlo (*seal*), y rhai a fwyteir gyda darnau bychain o frasder pysg, yr hwn a dorir gan foneddiges y tŷ à chyllell fawr. Y dull a gymmeradwyir i fwyta y bwyd hwn yw, cymmeryd darn o'r brasder a i osod yn rhywle ar y pentwr llysiau, ac yna, gwasgu cymmaint ag a fedroch gasglu rhwng eich bawd a'r tri bys nesaf ato nes y byddo yn dalp, yr hwn, os ydych yn dalyn ffodus, a lyn wrth eu gilydd nes y caffoch ef i'ch genau. Y dyn a'r bawd mwyaf sydd a'r siawns oreu yma. Yr oedd un truan a welais yn mhellach i fyny ar yr arfordir, ac a oedd wedi colli ei law dde a bawd ei aswy, yn gorfod cael ei fwyda gan ei wraig.

Y gyfran nesaf yw cig morlo. Torir hwnw i fyny hefyd gan y foneddiges lywyddol, a rhenir ef yn helaeth à llaw agored. Gyda'r gyfran hon o'r pryd bwyd y sawl fedro lyncu y tamaid mwyaf heb ei gnoi sydd à'r fantais, a'r unig ffordd i fod "i fyny" ag ef yw cadw un darn yn eich genau a dau yn eich llaw yr holl amser.

Wedi "dadleu" y gyfran hon ceir darn mawr o groen morlo, yr hwn sydd â pheth brasder yn nglyn wrtho, a'r blew etto ar ei du allan. Pan fyddo'r cig yn bwdr, gellir crafu ymaith y blew yn hawdd, ond os amgen, bwyteir ef gyda'r gweddill o'r croen. Mae y croen hwn tua modfedd o drwch ac yn wydn iawn, fel y mae yn hollol annichonadwy i'w gnoi, neu yn hytrach, i effeithio arno drwy ei gnoi. Mae hyd y nod y cwn yn para am hanner diwrnod i gnoi darn bychan o groen morlo a ddygwyddo hongian allan o gydaid o gig, ac yn methu ei wahanu. Mae hwn, gan hyny, yn cael ei dori yn defyll bychain iawn gan y llettywraig, ac yn gorphen y pryd bwyd. Hwn, mewn gwirioneddd, yw y ddysglaid fwyaf blasus o'r oll, a rhydd rhywbeth i'r cylla weithredu arno ag sydd yn gyffredin yn cymmeryd ei sylw hyd y pryd nesaf ; ond y mae yn syndod pa mor hawdd y treulir bwyd cig, a pha

mor fuan y dychwela archwaeth dyn ar ol dyslyncu y fath bryd. Pan orfyddid i mi orwedd o herwydd ystormydd, ac heb ddim i'w wneyd a dim i'w ddarllen, ymddangosai i mi mai yr oll a wnawn oedd gorwedd ar fy nghefn a gwylio am arwyddion o'r pryd nesaf. Dyna'r cwbl oedd i dori ar yr undonedd, os na fyddai eisieu glanhau fy mhibell. Yr oedd hwn bob amser yn orchwyl a roesawid, oblegyd, trwy ofal priodol, gallwn ei wneyd i bara am hanner diwrnod.

Mae dau bryd y dydd yn gyffredin mewn tŷ gweddol dda—y boreubryd a ddarluniwyd yn awr, a'r giniaw, yr hon a arlwyir yn hwyr yn y prydnawn. Mae y giniaw bron yn hollol yr un fath a'r boreubryd, oddigerth fod yna bob amser dipyn o gig pôb twym ar ol y croen morlo. Weithiau bydd ail gyfran y boreubryd neu'r giniaw yn gyfansoddedig o gig morlo neu ddanas, ond y mae y gyfran gyntaf a'r drydedd yr un yn barhaus, os na newidir hwy gan amgylchiadau y tu hwnt i lywodraeth y pen teulu.

Heblaw y ddau bryd hyn, rhoddir yr un bwyd bob amser i unrhyw ymwelydd a ddichon gyrhaedd y tŷ yn ystod y dydd o bellder, a chyfranoga pawb yn y tŷ ag ef, ac yn fynych iawn "curant ef allan," os na wylia yn ofalus i gadw digon gerllaw i'w ddwylaw a'i enau. Yr wyf yn siarad ar y mater hwn oddiar deimlad, oblegyd yr wyf mor aml wedi cael pryd o fwyd wedi ei roddi o fy mlaen a'i larpio gan ereill ag oeddynt, efallai, newydd orphen eu pryd hwy, tra yr oedwn I yn foesgar, fel ag i beidio ymddangos yn rhy wancus. Ond o'r diwedd, rhoddais heibio yr arferiad hwnw, a daethum yn alluog i gymmeryd fy lle wrth y bwrdd gyda llawn hyder y cawn o leiaf fy rhan o'r hyn a roddid arno.

NODYNAU ENWADOL AM Y MIS.

Mae yr enwad Undodaidd wedi bod yn cael ei ystyried dipyn yn ddifraw hyd yn hyn gyda golwg ar genadaeth dramor; ond ymddengys fel pe byddai rhyw arwydd am ddeffroad o'r difrawder hwn. Y mae dau genadwr wedi cael eu hanfon er ys ychydig amser yn ol i wlad y Japaneaid, gyda'r amcan o gynnyg iddynt Undodiaeth Gristionogol. Dygir treuliau un o honynt gan y gymdeithas yn Llundain, a'r llall gan y gymdeithas Americanaidd. Mae yr adroddiadau a anfonir ganddynt i'r gwahanol newyddiaduron enwadol yn galonogol dros ben.

Y dydd o'r blaen darfu i mi weled mewn un cyhoeddiad fod offeiriad neillduol yn gorfoleddu yn fawr o herwydd fod Undodiaeth o'r diwedd wedi marw, a'r Undodiaid wedi troi yn rhywbeth arall. Nis gwn pa beth a arweiniodd y gwr parchedig i'r fath gasgliad; ond yr wyf yn meddwl, pe buasai yn cael y fraint o fod yn bresenol yn y cyfarfodydd

lluosog a llwyddiannus a gynnaliwyd yn Sir Aberteifi yn ystod y ddau fis diweddaf, y cawsai allan ei fod yn camsynied yn fawr. Nid wyf yn cofio i mi weled gwell llewyrch ar yr holl ysgolion erioed o'r blaen; ac y mae yn ddiamheuol fod mwy o fywyd yn ein hachosion yn awr gyda'u gilydd nag un cyfnod yn eu hanes.

Nis gallaf beidio dweyd gair am y gymmanfa lewyrchus yn Rhydygwin. Yn ol barn pawb oeddynt yn gwybod rhywfaint am ganu, yr oedd yn rhagorol; yr oedd y tonau yn cael eu datganu gyda hwyl ac arddeliad dros ben. Yr oedd y pwyllgor wedi gweithredu yn ddoeth iawn i ddewis dau wr lleyg fel llywyddion y tro hwn; aethant drwy eu gwaith mor dda, fel y mae lle i obeithio y gwneir yr un peth etto yn y dyfodol. Y mae yn golled fawr na fuasai ein gwyr lleyg yn cymmeryd mwy o ran yn ein cyfarfodydd nag y maent wedi ei gymmeryd hyd yma. Ond gobeithio fod hyn yn ddechreuad cyfnod newydd.

Un gair wrth y gwahanol arweinyddion canu. Gobeithio na fydd y tonau da ydynt wedi eu dysgu yn cael eu gollwng allan o arferiad etto ar ol yr holl lafur a'r ymdrech. Ni fyddai yn beth anmhossibl canu un neu ddwy o honynt yn yr oedfaon ar y Sul; hyny yw, os bydd yr emynau a'r tonau yn *suitio* eu gilydd; ac hefyd, yn yr Ysgol. Y mae hyn yn gorphwys i raddau helaeth ar ein dechreuwyr canu.

Y mae y tair cymmanfa bellach drosodd, a daw yr amser yn fuan i barotoi ar gyfer y flwyddyn ddyfodol. Onid yw yn bossibl cael yr un *programme* i'r tair, yn lle fod pob un â'i *phrogramme* ei hun fel yn awr? Nid wyf yn gwneyd yr awgrym hwn er mwyn arbed traul yn unig, ond hefyd o herwydd rhesymau ereill. Y mae y mater hwn wedi bod dan ystyriaeth o'r blaen unwaith, ac yr wyf am awgrymu y dymunoldeb o'i ystyried etto.

Er ys ychydig amser yn ol ymddangosodd nodyn golygyddol yn yr *Inquirer* (Yr Ymofynydd Seisnig) yn achwyn am na fuasai mwy o ysbryd cenadol ynom ni, fel Undodiaid yn Nghymru. Y mae lle i ofni ein bod i raddau yn haeddu y cerydd (yr hwn wrth gwrs a weinyddwyd mewn teimlad da). Nid oes amheuaeth nad oes cyfleusdra rhagorol i daenu egwyddorion Undodaidd ar agoryd yn Nghymru; a chredaf nas gellid gwneyd gwell gwaith yn ystod tymhor yr Haf nâ threfnu cyfres o ddarlithiau i gael eu traddodi mewn lleoedd ar lan y môr. Y mae yr *experiment* a wnawd gan un o'n brodyr Seisnig yn y Ceinewydd er ys tua dwy flynedd yn ol yn werth ei threio etto.

Philos.

MENYWOD.

Cusan fy mam a'm gwnaeth I yn arlunydd.—*Benjamin West.*

Ofer yw i ddyn gael ei eni yn ffodus os bydd yn anffodus yn ei briodas.—*Dacier.*

Pan y gwelaf yr efrydiaeth orfanol a'r medr a ddangosir gan fenyw yn ei hymwneyd â phetheuach, ni theimlaf un ambeuaeth yn nghylch ei chyfaddasder at yr ymgymmeriadau mwyaf Hercwlffaidd.—*Julia Ward Howe.*

Mi a ddymunaswn yn gyfaill y mab hwnw na wrthwynebodd erioed ddagrau ei fam.—*Lacratelle.*

Nid oes un fenyw wedi ei haddysgu ag na fo yn alluog i lywodracthu ei theulu yn llwyddiannus.—*Burnap.*

Cyfrifer y rhywiau fel yn hoffi purdeb moesau, a gweinydder cyfiawnder cyfartal arnynt am unrhyw droseddiad o ddeddfau trefn gymdeithasol. Menywod ydynt arweinyddion naturiol cymdeithas yn mha beth bynag fyddo yn dal cyssylltiad â moesau cyfrinachol.—*Alcott.*

Dylai cariad mewn priodas fod yn gyflawniad breuddwyd ardderchog, ac nid, fel y prawf yn fynych, yn derfyniad.—*Alphonso Carr.*

Mae gwneuthuriad tŷ gwirioneddol yn hawl wirioneddol menyw yn unig—hawl na fedr un dyn ei chymmeryd oddiarni; oblegyd ni fedr dyn wneyd cartref mwy nag y medr gwenynen wrryw wneyd cwch. Fe fedr adeiladu castell neu balas, ond, greadur tlawd, bydded ef mor ddoeth a Solomon, ac mor gyfoethog â Crœsus, ni fedr ei droi yn gartref.—*Frances Power Cobbes.*

Manion ac Hanesion.

Diacon: "Yr oedd eich pregeth ar 'Gynnildeb' y boreu hwn, doctor, yn bregeth synwyrol iawn." Dr.: "Diolch i chwi; gallwn farnu, wrth edrych ar y casgliad, fod pawb wedi ei gwerthfawrogi."

Nid yw yr offeiriadaeth fel rheol wedi sicrhau'r *credit* o fod yn bleidwyr i iawnderau'r dosparth gweithiol; nid ydynt erioed fel corff wedi pleidio un mesur gwleidyddol a fwriedid i symmud ymaith y beichiau a wasgent arnynt; ond am bob mesur a dybient yn bleidiol iddynt eu hunain, maent wedi bod bob amser yn y ffrynt.

Os ydych am weled eithafion enwadaeth, ewch at un sydd wedi cefnu ar ei enwad. Mae y Parch. W. Kirkins, Baltimore, gynt gweinidog gyda'r Annybynwyr yn Hackney, yn dywedyd y dylid gosod pob awdurdod yn llaw yr esgobion. Yr esgob yw y *rheolwr* dwyfolbennodedig, a dyledswydd pawb ereill yw ufuddhau iddo.

The law condemns the man or woman
Who steals the goose from off the common;
But lets the greater felon loose
Who steals the common from the goose.

Y ddeddf gondemnia'r dyn yn sydyn
A ddyga'r wydd oddiar y cwmin;
Ond gedy hwnw'n rhydd yn rhwydd
A ddygo'r cwmin oddiar yr wydd.

Dywedai Aelod Seneddol pa ddydd fod 55,000 o blant yn Llundain, o herwydd meddwdod eu rhieni, yn gorfod myn'd i'r ysgol bob boreu heb damaid i'w fwyta.

H.D.C., ABERDAR.—Cynnaliwyd cyfarfod chwarterol Ysgol Sul y capel hwn dydd Sul, Mehefin 8, 1890, pryd y gwasanaethodd y personau canlynol yn anrhydeddus, er boddlonrwydd mawr i'r presenolion :—Margaret Jane Edwards Bronwen Hopkins, Mary Lewis, David Rees Davies, Kate Hopkins, Sarah Jane Evans, Alice Griffiths, Catherine Evans, Olwen Jones, Dd. Davies, Jenkin Evans, Daniel Davies, Lizzy Hopkins, Edward Morgan, Lena Jones, John Owen, ac Ann Tydian Jenkins. Cafwyd dadl ardderchog gan David Evans a'i gyfeillion ar destyn pwrpasol iawn, sef "Yr Ysgol Sul." Hefyd, canodd y Band of Hope bedair gwaith yn ardderchog. Ni chlywsom y plant erioed yn well nag yn y cyfarfod hwn. Bwriedir i'r plant yn y gyngherdd ddyfodol a gynnelir cyn hir yn y capel gymmeryd rhan helaeth o'r gwaith mewn cyssylltiad â'r canu.—*Rees Phillips.*

Deallwn fod y Parch. J. B. Lloyd wedi ymsefydlu yn nhref bwysig Dudley, mewn canlyniad iddo gael ei appwyntio yn ddiweddar yn weinidog ar yr eglwys Undoddaidd yn y lle. Oddiwrth hanes Mr. Lloyd yn y gorphenol, yr ydym yn sicr y lleinw èi le yn ardderchog. Duw yn rhwydd iddo.

Cynnaliwyd cyrddau blynyddol Undoddiaid rhan orllewinol Lloegr yn Nghaerdydd ar yr 11eg o Feh. Yr oedd yno lawer iawn o weinidogion Seisnig, a nifer da o weinidogion Cymru. Cafwyd cyrddau da.

Yr oedd gwr tramor yn son am anhawsderau ac afreoleiddiwch yr Iaith Seisnig, ac yn mhlith pethau ereill rhoddodd yr enghraifft yma o wrthuni eu seinyddiaeth: eu bod yn seinio Dickens yn Boz.

Y DRYW.

Y sionc "Ddryw" mor syw yw ei sain,—
Yw ei alaw firain; [hwylus
Ei lon dref yw'r tew lwyn drain,
Yno was sydd yn yswain.
—*Glan Cerdin.*

Y pwnc pwysig mewn addysg genedlaethol yw, sut i wneuthur yr ysgolion yn ddefnyddiol, nid sut i wneuthur y bobl i'w defnyddio.—*Frederic Harrison.*

Sut mae cadw i fyny y dyddordeb mewn addysg yn mhlith ein pobl ieuainc ydynt wedi gorphen eu *standards?* Sut mae gwneuthur llyfrau o fwy dyddordeb iddynt na'r bibell a'r dobyn diod?

Y GWANWYN.

O! mae'r byd i gyd yn gân—y Gwanwyn,
Serchog wena anian;
Dyry y myrdd adar mân
O y cangau eu cynghan.—*Glan Cerdin.*

Mae achles, wrth ei gadw yn yr awyr agored yn colli cymmaint a 42 y cant o'i rinwedd. Y wers yw, y dylid ei gadw dan dô, neu ei wasgar dros y tir ar unwaith.

Y WADD.

Rhyw ddu dwries pridd dyrau—i wyneb
Gweunydd yw'r "Wadd;" diau
Y ffals mewn clawdd wna ei ffau,
Tra chostus try ei chastiau.
—*Glan Cerdin.*

Marwgofion.

Rhagfyr 6, 1889, yn ugain mis oed, Margaret, merch Thomas ac Elinor Richards, Tangraig, ger Pontshan, Llandyssul. Claddwyd hi yn Pantdefaid ar y 9fed canlynol. Pregethodd y Parch. T. T. ar yr achlysur. Esgeuluswyd cofnodi marwolaeth y fechan hon mewn pryd.

Mai 13, yn bum' wythnos oed, Elizabeth, anwyl faban Griffith a Margaret Jones, Brynllefrith, Llanwenog. Claddwyd y dydd Iau canlynol yn mynwent Eglwys y Plwyf, a chyflawnwyd y gwasanaeth crefyddol yn y tŷ gan y Parch. J. D.

Mai 16, yn 23 oed, Anne Evans, Esgeronw, Llanarth. Y dydd Mawrth canlynol claddwyd hi yn mynwent Pantdefaid. Pregethodd y Parch. T. T. ar yr achlysur. Yr oedd yr ymadawedig hon yn ddynes hawddgar a pharchus iawn, ond machludodd ei haul ganol dydd.

Mai 17, yn chwech mis oed, Owen Meredith, mab Thomas a Rachel Williams, Gwarnant, Llanwenog. Claddwyd y bychan ar y 19eg yn mynwent Capelybryn, pryd y gwasanaethwyd ar yr

achlysur i glywedigaeth tyrfa fawr gan weinidog y lle.

Mai 22, yn bum' wythnos oed, Samuel, maban anwyl William a Margaret Evans, Courtfarm, Llanwenog. Claddwyd yn mynwent Capelybryn, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan y gweinidog.

Mai 26, yn 75 oed, David Lloyd, Hafodyrwyn, Llanwenog, a chladdwyd ef y dydd Gwener canlynol yn Nghapelygroes, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. T. T. Yr oedd y cyfaill ymadawedig yn ddyn adnabyddus a pharchus iawn, yr hyn a brofwyd ddydd ei angladd. Heblaw y dorf fawr o bobl ar draed ac ar geffylau, nid oedd llai nâ hanner cant o gerbydau i'w gweled yn y cynhebrwng tua'r gladdfa. Gadawodd briod a phlant i hiraethu a galaru ar ei ol, ond y mae "Tad yr amddifaid a Barnwr y gweddwon" etto yn fyw.

Mai 27, yn 54 mlwydd oed, ar ol cystudd caled o ychydig ddiwrnodau, Richard Rees, Dyffrynbroidyn, yn mhlwyf Llanboidy. Claddwyd prydnawn y dydd Sadwrn canlynol yn mynwent Rhydyparc, pryd y gwasanaethwyd yn nghlywedigaeth tyrfa luosog a pharchus yn y tŷ a'r capel gan y Parch. John Davies, Alltyplacca, ac ar lan y bedd gan y Parch. Mr. Davies, Cwmfelin (B.). Gadawodd ein cyfaill weddw, brodyr, a chwiorydd, yn nghyd a lluaws o gyfeillion i alaru ar ei ol. Yr oedd yn ddyn o gynneddfau meddyliol rhagorach nâ'r cyffredin, ac edrychid arno yn ei gymmydogaeth fel un y gellid ymddybynu arno am gymhorth pan fyddai yn ei allu i'w roddi. Yr oedd hefyd yn aelod ffyddlon o'r eglwys yn Rhydyparc, a diau y gwelir ei eisieu yn fawr yno. Bydded i angel yr Arglwydd gynhyrfu'r dyfroedd fel y byddo llawer o'r newydd yn dyfod i lanw lle y cyfeillion da a gollir fel hyn drwy ddyrnod angeu.

Mehefin 1, yn ddeg mis oed, Martha, merchen James Evans a'i ddiweddar briod o Bantiorlech, Llandyssul. Claddwyd y fechan yn mynwent newydd Llwynrhydowen. Pregethodd y Parch. T. T. ar yr achlysur yn y capel.

Mehefin 12, yn 9 mlwydd oed, Mary, anwyl ferch Margaret Davies, Pentrerhys, Llanwenog. Claddwyd y Sadwrn canlynol yn mynwent Eglwys y Plwyf, a chyflawnwyd y gwasanaeth arferol yn y tŷ gan J. D., Alltyplacca. Gorphwysed y galarwyr ar obenyddiau cariad, doethineb, a gallu Duw.

Mehefin 15, yn ddisymwth iawn, Wm. Phillips, *Post Office*, Dre Newydd yn Nottais, yn 62 oed. Bu ein cyfaill yn aelod ffyddlon a gweithgar yn yr eglwys Undodaidd yn y Nottais am flynyddau meithion, ac hefyd yn ddiacon am amser hir. Yn ol ei arferiad aeth i'r capel boreu Sul y 15fed o Fehefin, a phan oedd newydd orphen ei weddi agoriadol, gwelwyd ef yn syrthio ar ei ochr, gan godi ei ddwylaw at ei ben a gwaeddi, "O fy mhen, fy mhen." Galwyd yn union am help meddygol, ond yr oedd efe wedi myned y tu hwnt i bob help a ellid weini iddo. Bu farw yn mhen tua dwy awr. Bydd ei farwolaeth ddisymwth yn golled anadferadwy i'r achos yn y Nottais, gan mai efe oedd prif golofn yr eglwys sydd yn ymgyfarfod yno, ac nid oedd byth yn absenol o'r cwrdd na'r Ysgol Sul oddigerth iddo gael ei rwystro gan amgylchiadau anorfod. Collodd Undodiaeth gyfaill cywir yn Mr. Phillips, oblegyd gweithiai yn egniol drosti, nid yn unig gartref, ond mynychai ein cyfarfodydd hwnt ac yma i'r wlad, a chyfranai yn helaeth at ein hachosion yn Nghymru a Lloegr, a gwyr y sawl ydynt wedi arfer cynniwair yno, am y croesaw calonog a roddid i bawb gan yr ymadawedig, tŷ yr hwn oedd a'i ddrysau led y pen bob amser. Ni fu erioed gywirach cyfaill, na chymmydog mwy caredig, a theimlir ei golled am amser hir. Y dydd Mercher canlynol claddwyd yr hyn oedd farwol o hono yn mynwent y plwyf yn ngwydd tyrfa fawr o gydalarwyr a'r teulu trallodus, pryd y darllenwyd rhan o'r Ysgrythyr yn y ty gan y Parch. Fisher Jones, ac y cafwyd anerchiad byr a gweddi ddwys gan y Parch. Hathren Davies. Ar y ffordd o'r ty i'r eglwys canodd pobl ieuainc yr Ysgol Sul yr emyn "Di dyner wawl." Ar lan y bedd gwasanaethwyd yn ddifrifol iawn gan y Parch. T. Thomas, Pantdefaid. Yr oedd y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, hefyd yn bresenol, ond cyrhaeddodd yn rhy ddiweddar i gymmeryd rhan yn y gweithrediadau. Felly y claddwyd un o ragorolion y ddaear, a Duw yn ei ras a godo i fyny rai i lanw lle y ffyddloniaid sydd yn syrthio. Aden gariadlawn y Tad a amddiffyno y weddw yn ei dygn dristwch, ac a arweinio y mab i fod yn deilwng o dad da.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.

GEORGE'S POPULAR REMEDIES.

AT Y CYHOEDD.

Erfynir arnom yn fynych i roddi hyspysrwydd o'r holl Ddarpariaethau Meddyginiaethol a vneir genym. Wele yn canlyn *list* o'r prif rai :—

GEORGE'S PILE AND GRAVEL PILLS. Y mae y Feddyginiaeth hon yn rhy adnabyddus drwy yr holl fyd i alw am ragor o hyspysrwydd yma. Digon yw dweyd fod "Dr Quain's Dictionary of Medicine"—y llyfr meddygol pwysicaf a ddaeth allan o'r wasg erioed, heddyw, yn cydnabod mai yr egwyddor fawr ar *yr hon y mae y Feddyginiaeth uchod yn sylfaenedig*, yw yr unig wir egwyddor yn ol pa un y dylid trin holl ddoluriau perthynol i'r Ymysgaroedd, yr Arenau, y Cylla, a'r Afu Yr ydym yn gwneyd y ffaith bwysig hon yn hyspys fel ag i wneyd pawb sydd yn defnyddio y Peleni bydenwog hyn deimlo yn sicr eu bod yn chwilio am wellhad ar linellau ag y mae perffeithrwydd Celfyddyd Feddygol yr oes hon yn gymmeradwyo a'i orchymyn.

—o—

GEORGE'S AMERICAN RHEUMATIC LINIMENT, neu "*American Marvel.*" Hon ydyw y Ddarpariaeth fwyaf poblogaidd yn yr holl fyd at y GOWTNEGOW, LUMBAGO, SCIATICA, CYMALAU STIFF, CRAMP, STIFF JOINTS, CHWYDDIADAU, CLEISIAU, YSIGIADAU, DOLUR Y GWDDF, QUINSY, GWENDID YN YR AELODAU, INFLAMMATION, a holl boenau *lleol* ereill.—*Mewn poteli*, 1/9 *a* 1/1½ *yr un. Drwy y Post*, 2/- *a* 1/4.

—o—

GEORGE'S STOMACH AND LIVER TONIC.—Yr ydym yn gwarantu y gwna y Feddyginiaeth hon AWCHU Y CYLLA AT FWYD, CYNNORTHWYO TREULIAD FWYD, PURO Y GWAED, CRYFHAU'R GEWYNAU, SIRIOLI'R YSPRYDOEDD, ADDFEDU AC ARLLWYS POB HYLIF AFIACH A LLYSNAFEDDOG O'R CORFF.—*Mewn poteli*, 2/9 *yr un. Nis gellir ei ddanfon gyda'r Post.*

—o—

GEORGE'S TIC MIXTURE.—Symmuda hwn y dolur a elwir TIC, (neu TROTOLORW) a'r RHEUMS mewn ychydig oriau.—*Mewn poteli*, 1/9 *a* 2/9 *yr un. Nis gellir ei ddanfon gyda'r Post.*

—o—

GEORGE'S CAMBRIAN TONIC VOICE LOZENGES.—Nid oes eisieu ond enwi cefnogwyr y *Voice Lozenges* hyn er profi mai hwy sydd ar y blaen at GRYFHAU a PHEREIDDIO y llais. Dyma ychydig o honynt :—Madame EDITH WYNNE, Dr. PARRY, OWEN ALAW, EOS MORLAIS, LLEW LLWYFO, JAS. SAUVAGE, D. JENKINS, Mus. Bac., JNO. THOMAS, CARADOG, &c, &c.. *Pris* 6ch. a 1/-. *Gellir cael y Blwch* 1/. *gyda'r Post am* 1/2 *mewn stamps.*

—o—

GEORGE'S CURE FOR BRONCHITIS.—Meddyginiaeth effeithiol iâ wella "BRONCHITIS." *Mewn poteli*, 2/6 *yr un. Nis gellir danfon hwn gyda'r Post.*

—o—

"FLATULINE."—Meddyginiaeth hynod effeithiol er symmud GWYNT O'R CYLLA A'R YMYSGAROEDD. *Pris*, 1/1½ *a* 2/9 *y botel. Nis gellir ei ddanfon gyda'r Post.*

—o—

"ASTHMALINE."—Darpariaeth gwir werthfawr at DDIFFEG ANADL. *Pris* 1/9 *a* 2/9 *y botel. Nis gellir ei ddanfon gyda'r Post.*

—o—

"DR. CRYNANT'S PLASTER." (Established 40 Years.) Hwn ydyw y Plaster mwyaf hynod yr oes at wella Ysigiadau, Briwiau, Toriad Asgwrn, Chwyfau, Gwendid yr Aelodau, Lumbago, &c. *Mewn Packets*, 7½c. *a* 1/1½ *yr un. Yr un mwyaf drwy y Post am* 1/8 *mewn stamps.*

PERCHENOG :—

J. E. GEORGE, M.R.P.S.,

Hirwain.



INTERESTING FACTS FOR INVALIDS.

The experience of twenty years proves that no medicine for the cure of all the Disorders of the BOWELS, LIVER, KIDNEYS, and STOMACH, will bear comparison with GEORGE'S PILE AND GRAVEL PILLS.

It is an important fact that these Remedies are patronised and highly recommended by EMINENT MEDICAL MEN, both in this country and America.

Many of the wealthy of the land give their time and money to supplying the afflicted poor in their neighbourhoods with these Pills. This fact speaks volumes in favour of these Pills.

Were all the Testimonials that have been received in favour of these Remedies printed, they would fill a volume of over a THOUSAND PAGES of the ordinary size.

There is not a civilized nation under the sun that has not experienced the HEALING VIRTUES of these Remedies. For many years they have held the FIRST PLACE in the world as a remedy for the above disorders.

It is the opinion of those best able to judge that a discovery of greater importance to suffering humanity than GEORGE'S PILE AND GRAVEL PILLS has not been made in this century.

THOUSANDS have been cured by these Pills, and TENS OF THOUSANDS relieved of their pains; and many who have been pronounced hopeless have been THOROUGHLY RESTORED TO HEALTH by their use.

Sold in Boxes, 1/1½ and 2/9 (by Post, 1/3 and 2/10) each, by all respectable Chemists.

IMPORTANT CAUTION.—BEWARE OF SPURIOUS IMITATIONS.